Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# PECYN CAIS
# AM
# SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo ‘fod yn arweinydd byd mewn ymateb brys a diogelwch cymunedol.’ Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw’n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy’n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i’r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi’u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu’r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai’r Gwasanaeth yn gallu darparu’r gwasanaeth gorau posibl i’n cymunedau.

Os ydych chi’n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â’r holl fanteision y byddech chi’n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o’n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,





Roger Thomas
Prif Swyddog Tân, *Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig*

# EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

# OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.



#EichGTACGC #YourMAWWFRS

## YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Bod yn Barchus
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Ddiduedd
- Bod yn Foesegol

**Bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn yr ymddygiadau hyn drwy gydol y broses recriwtio.**

## GALLUOGI

- Ein pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cadernid Ariannol
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth




Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**

yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân

gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

Cyfraddau cyflog cystadleuol -
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

Gwyliau Blynyddol hael –
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

Cynllun Hyblyg –
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

**#SERO30**

# Proffil Swydd

Cyflog: £38,626 - £40,476

| MANYLION AM Y SWYDD HON |
| --- |
| **Ynghylch y Swydd**<br>Gan weithio fel rhan o’r tîm Systemau Busnes, mae’r rôl hon yn darparu swyddogaeth hanfodol i’r Gwasanaeth, gan sicrhau bod seilwaith y prif rwydwaith yn rhedeg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel.<br><br>Mae'r rôl hon yn gyfuniad o beirianneg dechnegol ymarferol, rheoli rhwydwaith ac ymateb critigol. Yn ogystal â gofalu am y rhwydwaith bydd y rôl hefyd yn goruchwylio tasgau’r Gweinyddwr Systemau er mwyn sicrhau lefel o afreidrwydd a sicrwydd o fewn y tîm.<br><br>Bydd y rôl hon yn canolbwyntio'n helaeth ar ddiogelwch a seibergadernid gan sicrhau parhad busnes drwy afreidrwydd caledwedd.<br><br>**Yr Unigolyn**<br>Bydd y rôl hon yn addas ar gyfer unigolyn sydd â blynyddoedd o brofiad yn cyflwyno strategaethau rhwydweithio ac argymell, comisiynu a chynnal caledwedd rhwydwaith, sy'n mwynhau datrys materion technegol a dod o hyd i atebion technegol, ac yn gwneud hynny’n effeithiol. Rhaid i'r unigolyn allu gweithio ar ei liwt ei hun, yn ogystal â gweithio fel rhan o'r adran TGCh yn ehangach a bod yn hapus i rannu'r llwyth gwaith gyda chwmnïau allanol, a allai gael eu defnyddio ar gyfer prosiectau mawr.<br><br>Mae'r gallu i weithio gyda nifer o wahanol werthwyr a phrofiad cadarn o weithio gyda pheirianwaith switshys Cisco a gwybodaeth dda am WiFi, llwybryddion, muriau gwarchod a phensaernïaeth Rhwydwaith Ardal Leol Rithwir (VLAN) yn ofynion sylfaenol ar gyfer y swydd. |

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Gweinyddwr Rhwydwaith TGCh |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 9 |
| **LLEOLIAD:** | Adran TGCh, Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **YN GYFRIFOL I:** | Dirprwy Bennaeth (Rheolwr Tîm Systemau Busnes) |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Prif ddiben y Gweinyddwr Rhwydwaith TGCh yw sicrhau bod seilwaith y rhwydwaith yn effeithiol, yn addas i'r diben, yn cyd-fynd ag arferion gorau ac wedi'i ddogfennu'n gywir. |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| 1. Helpu i sicrhau bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth yr adran yn cael ei fonitro a’i ddilyn lle bo hynny'n ymarferol ar gyfer eich rôl | Rheolwr Tîm |
| 2. Mynychu hyfforddiant technegol a chyrsiau ymgyfarwyddo â systemau yn ôl yr angen (gan gynnwys yr angen i aros dros nos) | Rheolwr Tîm |
| 3. Cynrychioli'r adran TGCh mewn cyfarfodydd, gweithgorau ac ati fel sy'n ofynnol gan arweinydd eich tîm neu’r Pennaeth TGCh | Rheolwr Tîm |
| 4. Sicrhau bod pob rhan o'r swyddfa, y gweithdy a'r mannau storio yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, bod yr holl stoc wedi'i labelu'n gywir a, lle bo'n briodol, yn cael ei waredu'n gyflym gan ddilyn polisïau’r gwasanaeth. | Rheolwr Tîm |
| 5. Sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r Ddogfen Polisi Diogelwch Gwybodaeth (ISPD) a bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â'r polisi a pholisïau eraill y Gwasanaeth fel y polisïau Prosesu Data. | Pennaeth TGCh |
| 6. Cydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch a holl bolisïau eraill y Gwasanaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth | Pennaeth TGCh |
| 7. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chyfarwyddyd eich rheolwr llinell neu’r Pennaeth TGCh sy'n gymesur â chyfrifoldebau ehangach yr adran | Rheolwr Tîm/Pennaeth TGCh |
| 8. Sicrhau bod unrhyw geisiadau am gymorth TGCh yn cael eu cofnodi ar ddesg gymorth yr adran TGCh. | Rheolwr Tîm |
| 9. Helpu i ddatblygu, rhannu a hyrwyddo arferion da sy'n gysylltiedig â TG ar draws y sefydliad gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â diogelwch meddalwedd a thrwyddedu | Rheolwr Tîm |
| 10. Meddu ar drwydded yrru lawn. Yn gallu gyrru yn ddiogel bob amser. | Rheolwr Tîm |

| | |
|---|---|
| 11. Helpu i sicrhau bod amcanion presennol y Gwasanaeth yn cael eu cyflawni a'u cofnodi | Pennaeth TGCh |
| 12. Cynorthwyo gydag unrhyw Archwiliadau o'r adran, y systemau neu'r Feddalwedd yn ôl yr angen. | Pennaeth TGCh |
| 13. Sicrhau bod yr holl waith caffael yn cael ei wneud yn unol â pholisi caffael y Gwasanaeth. | Pennaeth TGCh |
| 14. Cyflawni dysgu hunangyfeiriedig rheolaidd yn ôl yr angen ar gyfer eich rôl neu yn ôl cyfarwyddyd Pennaeth yr Adran er mwyn sicrhau datblygiad personol parhaus | Rheolwr TGCh |
| 15. Sicrhau effeithiolrwydd seilwaith y rhwydwaith TGCh ar draws y gwasanaeth gan gynnwys Sgemâu IP, dylunio seilwaith y rhwydwaith, Rhwydweithiau Ardal Leol Rhithwir (VLANs), Ansawdd y Gwasanaeth (QoS), Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP), fideo-gynadledda, llwybryddion, Radius, DHCP a gwasanaethau tebyg | Rheolwr TGCh |
| 16. Rheoli a chynnal dyfeisiau rhwydwaith fel Switshys, Llwybryddion, Muriau Gwarchod a sicrhau bod dyfeisiau eraill seilwaith y rhwydwaith wedi'u ffurfweddu'n gywir ac yn gweithio'n iawn | Rheolwr TGCh |
| 17. Sicrhau bod Ystafelloedd Data yn drefnus, wedi'u labelu'n glir, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn cael eu cadw'n daclus ac yn ddiogel | Rheolwr TGCh |
| 18. Sicrhau llwybryddion data effeithiol ac effeithlon yn ein rhwydwaith ar draws ardal y Gwasanaeth ac yn allanol i Bartïon eraill a'r Rhyngrwyd | Rheolwr TGCh |
| 19. Sicrhau bod rhwydweithiau'n cael eu monitro'n ddigonol ar gyfer rhybuddion a diffygion a'u bod yn cael eu cywiro'n gyflym | Rheolwr TGCh |
| 20. Sicrhau bod yr holl waith ffurfweddu rhwydwaith yn cael ei wneud yn ddiogel yn unol ag arferion gorau cyfredol sy'n gymesur â'r math hwn o sefydliad | Rheolwr TGCh/Rheolwr Diogelwch TGCh a Chydymffurfio |

| | |
|---|---|
| 21. Sicrhau bod yr holl ddiweddariadau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon | Rheolwr TGCh/Rheolwr Diogelwch TGCh a Chydymffurfio |
| 22. Cynnal adolygiadau rheolaidd o seilwaith y rhwydwaith er mwyn dod o hyd i unrhyw broblemau neu ddiffygion a chysylltu â’r rheolwr diogelwch TGCh a Chydymffurfio i drafod y canfyddiadau | Rheolwr TGCh/Rheolwr Diogelwch TGCh a Chydymffurfio |
| 23. Argymell newidiadau neu welliannau sylweddol y dylid eu gwneud i Seilwaith y Rhwydwaith gan gynnwys rhesymeg fanwl, costau a dadansoddiad risg priodol. | Rheolwr TGCh/Pennaeth TGCh |
| 24. Cynnal, gosod a ffurfweddu muriau gwarchod y cwmni a bod yn ymwybodol o ddiogelwch | Rheolwr TGCh |
| 25. Sicrhau bod caledwedd neu dechnolegau newydd yn cael eu gwerthuso yn unol â gweithdrefn gadarn ac mewn modd amserol | Rheolwr TGCh |
| 26. Cadw dogfennau rhwydwaith yn gyfredol gyda chynlluniau a diagramau manwl a chlir o seilwaith y rhwydwaith gyfan, sy'n hygyrch i'r tîm | Rheolwr TGCh |
| 27. Sicrhau bod gweithdrefnau rheoli newid effeithiol yn cael eu gweithredu bob amser, lle bo hynny'n ymarferol | Rheolwr TGCh |
| 28. Sicrhau bod ffurfweddiadau’n cael eu cadw wrth gefn yn rheolaidd a'u bod ar gael mewn man sy’n hygyrch i'r tîm, gan gynnwys dogfennaeth i ganiatáu adfer yn llwyddiannus. | Rheolwr TGCh |
| 29. Sicrhau eich bod yn cael yr hyfforddiant perthnasol diweddaraf ar gyfer offer y Gwasanaeth a gweithredu a rhannu'r wybodaeth a gafwyd o'r hyfforddiant hwnnw | Rheolwr TGCh |
| 30. Gweithio'n agos gyda’r Gweinyddwr System TGCh i sicrhau bod Active Directory, Radius a mewngofnodi diogel yn cael eu defnyddio lle bo modd | Rheolwr TGCh |
| 31. Gweithio gyda thechnegydd cymorth y bwrdd gwaith neu dechnegwyr eraill fel y bo'n briodol i roi'r offer iddynt wella mynediad ac argaeledd y rhwydwaith i ddefnyddwyr terfynol. | Rheolwr TGCh |
| 32. Sicrhau bod systemau mynediad i’r rhwydwaith yn ddiogel ac yn weithredol, gan gynnwys GovRoam | Rheolwr TGCh |
| 33. Cynnal dealltwriaeth o swyddogaethau’r Gweinyddwr System TGCh er mwyn bod wrth gefn os oes angen | Rheolwr TGCh |

| | |
|---|---|
| 34. Sicrhau bod datrysiadau cysylltu o bell yn effeithiol, yn ddiogel ac yn addas i'w diben er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr o bell fewngofnodi i systemau | Rheolwr TGCh |
| 35. Sicrhau bod Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP) a Fideo-gynadledda yn gweithio'n ddibynadwy ar draws rhwydwaith y gwasanaeth | Rheolwr TGCh |
| 36. Gweithio gyda'r Tîm Cymorth Gweithredol TGCh i sicrhau WiFi effeithiol a dibynadwy ar draws ardal y Gwasanaeth | Rheolwr TGCh |
| 37. Sicrhau cynllun parhad busnes dibynadwy ar gyfer y rhwydwaith switshys a llwybryddion ar draws y sefydliad | Rheolwr TGCh |
| 38. Ffurfweddu a chynnal Rhwydweithiau Preifat Rhithwir (VPNs) o safle i safle ar gyfer y sefydliad | Rheolwr TGCh |
| 39. Gweithio gyda darparwyr seilwaith a gwasanaethau cyfathrebu trydydd parti, gan gynnwys darparwyr ceblau i bennu, archebu a rheoli'r broses o ddarparu cynnyrch a gwasanaethau | Rheolwr TGCh |
| 40. Cynllunio a rheoli'r gwaith o osod ceblau newydd lle bo angen ar y cyd â staff yr adran | Rheolwr TGCh |
| 41. Gweithio gyda thimau ac adrannau eraill ar fentrau a fydd angen mynediad gwell i'r rhwydwaith neu un newydd | Rheolwr TGCh |
| 42. Rhoi cymorth ar unrhyw adeg yn ystod digwyddiadau critigol TGCh, gan gynnwys cysylltu â chyflenwr allanol sy'n darparu cymorth critigol | Rheolwr TGCh/Pennaeth TGCh |

# Manylebau Personol

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Gweinyddwr Rhwydwaith TGCh |
| **LLEOLIAD:** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **GRADD:** | Gradd 8 |
| **ADRAN:** | Adran TGCh |

| **CYMWYSTERAU / HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL / CYMHWYSEDDAU** | **HANFOD** | **DYMUNOL** | **ASESIAD** |
|---|---|---|---|
| 1. Hyfforddiant yn y diwydiant fel Cydymaith Rhwydweithiau Ardystiedig Cisco (CNNA) neu debyg | ✓ | | Ffurflen gais |
| 2. Cymwysterau Rhwydweithio sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant | | ✓ | Ffurflen gais a Thystysgrifau |
| 3. Safon Uwch a/neu Radd mewn pwnc TGCh (neu gyfwerth) | | ✓ | Ffurflen gais a Thystysgrifau |
| 4. Trwydded Yrru Lawn | ✓ | | Ffurflen gais |

**GWYBODAETH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. Gwybodaeth ragorol am galedwedd Rhwydweithio gan gynnwys Llwybryddion, Switshys Haen 2 a 3, Muriau Gwarchod, Pyrth, Pwyntiau Mynediad a ffurfweddiad uwch | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 6. Gwybodaeth ragorol am geblau seilwaith, gan gynnwys manylebau a safonau. | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7. Gwybodaeth ragorol am rwydweithiau Diwifr, gan gynnwys protocolau, terminoleg, cyfyngiadau ac ymarferoldeb | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 8. Gwybodaeth dda am osod, ffurfweddu, cynnal a chadw a chefnogi Switshys Cisco | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 9. Gwybodaeth dda am osod, ffurfweddu, cynnal a chadw a chefnogi dyfeisiau gan wneuthurwyr eraill | | ✓ | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 10. Gwybodaeth ragorol am ddiogelwch rhwydwaith a ffurfweddu a chynnal rhwydwaith diogel | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 11. Gwybodaeth dda am ffurfweddu muriau gwarchod UTM rhwydwaith gyda dealltwriaeth dda o nodweddion, swyddogaethau, polisïau a rheolau. | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 12. Gwybodaeth am systemau canfod ymyrraeth a systemau atal ymyrraeth a sut i'w ffurfweddu'n effeithiol. | | ✓ | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 13. Gwybodaeth ragorol am Rwydweithiau Ardal Leol Rhithwir (VLANs) a ffurfweddu'n effeithiol | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 14. Gwybodaeth dda am Active Directory a gweinyddu Microsoft 365 | | ✓ | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 15. Gwybodaeth dda am system rheoli mynediad fel Radius, tystysgrifau ochr cleientiaid, 802.1x | | ✓ | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 16. Gwybodaeth dda am greu rhwydweithiau gwydn ar gyfer afreidrwydd | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 17. Gwybodaeth dda am gyfathrebu rhwng safleoedd gan ddefnyddio cylchedau lled-breifat a VRFs | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18. Gwybodaeth am strwythur Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) yng Nghymru | | ✓ | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 19. Gwybodaeth am iSCSI, LUNs a therminoleg arall sy'n ymwneud â Rhwydweithiau Ardal Storio (SAN) | | ✓ | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 20. Gwybodaeth dda am Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP) a Phrotocol Cychwyn Sesiwn (SIP) gan gynnwys ffurfweddu a datrys problemau. | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |

**PROFIAD**

| | HANFOD | DYMUNOL | ASESIAD |
|---|---|---|---|
| 21. O leiaf 5 mlynedd o brofiad yn ffurfweddu caledwedd rhwydwaith mewn gweithle | ✓ | | Ffurflen gais |
| 22. O leiaf 3 blynedd mewn rôl sydd yn bennaf cyfrifol am galedwedd rhwydweithio a thraffig rhwydwaith | ✓ | | Ffurflen gais |
| 23. Profiad da o bennu a chreu achosion busnes ar gyfer prosiectau seilwaith rhwydweithiau | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 24. Profiad o greu diagramau rhwydwaith a dogfennaeth gynhwysfawr | ✓ | | Ffurflen gais |
| 25. Profiad da o ddatrys problemau rhwydwaith gan ddefnyddio ystod o offer | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 26. Profiad o bennu, ffurfweddu a gosod y seilwaith ar gyfer safle newydd | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 27. Y gallu i werthuso gwerth am arian yn effeithiol gyda gwariant cyfalaf ac adenillion ar fuddsoddiad gydol oes | ✓ | | Cyfweliad |

## SGILIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD / SGILIAU PERSONOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28. Y gallu i weithio i derfynau amser tyn mewn amgylchedd prysur, gan reoli blaenoriaethau gwahanol yn effeithiol | ✓ | | Cyfweliad |
| 29. Y gallu i weithio fel rhan o dîm | ✓ | | Cyfweliad |
| 30. Ymagwedd frwdfrydig ac ymroddedig at ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel | ✓ | | Cyfweliad |

## SGILIAU CYFATHREBU

| | | | |
|---|---|---|---|
| 31. Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Saesneg | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 32. Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg | | ✓ | Ffurflen gais |
| 33. Y gallu i gyfleu pynciau technegol yn dda ac yn gywir | | | Cyfweliad |
| 34. Cyfathrebu gwych â rheolwyr, staff a chyflenwyr allanol gan sicrhau eich bod yn creu sianeli cyfathrebu effeithiol | ✓ | | Cyfweliad |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL: Safonol**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 15 Mai 2025

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk